

Cefn gwlad ar garreg drws



Mae'r dudalen hon yn rhoi manylion i chi am Warchodfa Natur Leol Howardian.

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol o dan y penawdau canlynol:

- Crynodeb
- Nodweddion diddorol
- Cyfleusterau
- Mynediad
- Mannau Cyfagos
- Eich Sylwadau Chi
- Gwybodaeth a Chysylltiadau

Gwarchodfa Natur Leol Howardian

Crynodeb

Mae'r Warchodfa Leol wedi'i lleoli yng ngwaelod dyffryn Rhymni, gwerddon o fywyd gwyllt yn cynnwys coetir, dôl blodau gwyllt, pyllau a gwelyau cyrs.

Mae'n anodd credu mai tomen sbwriel oedd y warchodfa ar ddechrau'r 1970au. Er bod rhan helaeth o'r safle wedi cael ei defnyddio fel safle tirlenwi, mae llawer o'r llystyfiant morydol creiriol yn parhau ac yn ffurfio un o brif nodweddion y Warchodfa. Ers hynny mae'r Cyngor wedi gweithio â grwpiau lleol i greu'r hafan bywyd gwyllt y gellir ei mwynhau heddiw.

Ffurfiodd grŵp brwdfrydig o drigolion lleol Grŵp Cyfeillion yn 1989 sy'n helpu'r Cyngor i wella'r warchodfa ymhellach. Erbyn hyn ceir rhwydwaith da o lwybrau yn gweu rhwng yr amrywiaeth arbennig o gynefinoedd sy'n llawn fflora a ffawna diddorol.

Mae planhigion diddorol yn cynnwys gwenyn, brych y de a chyffredin, tegeirianau cors y de, gorfanaadl, ytbys â dail gwyrdd, blodau ymenyn â dail seleri ayb.

Nodweddion diddorol

Hanes

Ar ddechrau'r 1970au roedd y safle'n domen sbwriel ddomestig na ddefnyddid. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gweithio â grwpiau lleol i drawsffurfio'r safle'n hafan i fywyd gwyllt. Mae gwaith yn parhau heddiw i wella'r warchodfa ar gyfer bywyd





Gwarchodfa Natur Leol Howardian - Parhad

gwyllt a mwynhad y cyhoedd.

Cefn gwlad ar garreg drws

Natur

Er bod y warchodfa wedi'i chywasgu mewn safle dinesig cyfyng, mae'n gartref i amrywiaeth ryfeddol o fywyd gwyllt. Mae dros 500 o rywogaethau unigol wedi'u cofnodi, gan adlewyrchu'r cynefinoedd cyferbyniol yn y safle. Drwy gydnabod gwerth y safle o ran bywyd gwyllt, fe'i dynodwyd yn Warchodfa Natur Leol yn 1981. Rhestrir rhai o'r prif nodweddion bywyd gwyllt isod.

Nodweddion dŵr

Mae pwll, gwely cyrs a llwynyn yn darparu gwahanol gynefinoedd dŵr sy'n denu gwahanol rywogaethau o fflora a ffawna. Edrychwch am Grëyr Glas, Glas y Dorlan, ynghyd â Thelor yr Hesg a Giach yn y gwelyau cyrs. Mae Nadredd y Glaswellt, Llyffantod a Llyffantod Duon hefyd yn manteisio ar y cynefinoedd hyn.

Dolydd a glaswelltir

Mae'r manau agored yn cynnwys rhywogaethau planhigion diddorol megis Tegeirianau Gwenyn ac amrywiaethau o Flodau Ymenyn. Fodd bynnag, mae'r cynefin hwn yn wych ar gyfer pryfed, nadredd defaid a gloynnod byw.

Coetir

Mae dros 25,000 o goed wedi'u plannu i gyd-fynd â'r tri pherthlys bychan ar y safle'n wreiddiol. Mae hyn wedi arwain at gymysgedd da o goetir a phrysg – amodau nythu delfrydol i nifer o adar.

Nant a Rhaeadr

Mae nant fechan yn pasio trwy'r warchodfa. Mae'n darparu nodwedd arall ddiddorol gan ei bod wedi creu sianel gul trwy'r maes clai ac mae'n cynnwys rhaeadr fechan yn ardal y coetir.

Digwyddiadau Arbennig

Mae Cyfeillion Gwarchodfa Natur Leol Howardian yn cynnal diwrnodau gwaith i ymgymryd â gwaith cynhaliaeth y gall pobl wirfoddoli i gyfrannu iddynt. Ceir teithiau tywys achlysurol hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth ar [Wefan y Parciau](#).

Mynediad

Oddi mewn

Ceir rhwydwaith eang o lwybrau trwy'r Warchodfa.

Mae'r llwybrau'n gymysgedd o lwch cerrig neu





Gwarchodfa Natur Leol Howardian - Parhad

dir glaswellt/llwm.

Mae rhannau'n gul ac iddynt ychydig o raddiant.

Cyrraedd Yno

Cerdded – Ceir tair mynedfa i'r Warchodfa, un ar Hammond Way a dwy ar Ipswich Road.

Ar fws – Gellir cerdded i'r Warchodfa o'r llwybrau bus ar hyd Colchester Avenue a Heol Casnewydd. Ceir manylion am y llwybrau bus yn www.cardiffbus.com

Ar drên - Nid oes gorsafoedd rheilffordd yn agos at y Warchodfa. Fodd bynnag, mae Gorsaf Caerdydd Canolog ger yr Orsaf Fysus a gall y llwybrau bus eich cludo at y Warchodfa. Ceir manylion am y gwasanaethau trenau yn www.nationalrail.co.uk

Mewn car – Mae llefydd i barcio oddi ar y stryd gerllaw'r tair mynedfa.

Mannau Cyfagos

Mae Gwarchodfa Natur Leol Howardian wrth ymyl Canolfan Hamdden David Lloyd, ger Heol Casnewydd, lle ceir amrywiaeth o gyfleusterau hamdden ac adwerthu.

Mae Canolfan Addysg Howardian gerllaw'r safle. Mae Gwarchodfa Natur Leol Howardian hefyd wedi'i lleoli'n agos at ardaloedd agored eraill:

Llwybr Rhymni

Mae Cyngor Caerdydd wedi dechrau datblygu llwybr cerdded a seiclo ochr yn ochr ag Afon Rhymni. Mae'n bosibl cychwyn ar y blaendraeth erbyn hyn a dilyn y llwybr i fyny at bentref Llanedeyrn.

Gerddi Roath Mill a Waterloo

Mae Gerddi Roath Mill a Waterloo yn ddwy enghraifft dda o barciau Edwardaidd.


Eich Sylwadau Chi

"Mae mor brydferth ac mor annisgwyl yr ochr arall i draffig swnllyd Heol Casnewydd"





Gwarchodfa Natur Leol Howardian - parhad



Gwybodaeth a Chysylltiadau

Cyngor Sir Caerdydd sy'n berchen ar Warchodfa Natur Leol Howardian, a'r Adran Parciau sy'n ei rheoli. Mae gan y Warchodfa Grŵp Cyfeillion yn ogystal. Ceir rhagor o wybodaeth am y Warchodfa ac am y digwyddiadau diweddaraf ar [Wefan y Parciau](#).

Y Gwasanaeth Parciau
Cyngor Sir Caerdydd
Parc y Mynydd Bychan,
King George V Drive,
Caerdydd. CF14 4EP

Ffôn: 02920 684000
E-bost parks@cardiff.gov.uk

